Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2,
Lôn Pencarn,
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR

20 Chwefror 2019

Annwyl Ann a Philip

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Chwefror am gymwysterau'r cwricwlwm newydd, gan adeiladu ar ein trafodaeth flaenorol.

Rydym wedi cyrraedd cam cadarnhaol o'n gwaith diwygio ar hyn o bryd, ac fel y gwyddoch, byddwn yn cysylltu ymhellach ag ysgolion, ymarferwyr a'r cyhoedd ym mis Ebrill i drafod manylion y cwricwlwm drafft. Felly, mae hwn yn gam addas i ystyried y goblygiadau ar gymwysterau.

Rwy'n falch fod Cymwysterau Cymru yn rhan o'r datblygiadau o'r cychwyn cyntaf, gan gynnwys cyfrannu at bob un o weithgorau Maes Dysgu a Phrofiad ac Asesu yr ardaloedd arloesi.

Fel y nodwch, bydd angen i'r cymwysterau newydd fod ar gael i'w haddysgu'n gyntaf o fis Medi 2025 er mwyn bodloni amcanion Cenhadaeth ein Cenedl. Rwy'n gwybod eich bod chi'n ymrwymo i sicrhau y bydd unrhyw gymwysterau newydd a gyflwynir ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda'i gilydd; ac y bydd unrhyw gymwysterau newydd yn cael eu cymeradwyo o leiaf 12 mis cyn i'r cyrsiau ddechrau, er mwyn neilltuo digon o amser i'r ysgolion gynllunio, ac fel bod adnoddau dysgu ac addysgu dwyieithog yn cael eu datblygu i'w cefnogi nhw.

Mae Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn parhau'n bwysig. Maen nhw'n rhoi'r cyfle i bobl ifanc ddysgu a datblygu amrywiaeth eang o sgiliau academaidd a phersonol ac yn eu helpu i baratoi at fyd gwaith, astudiaethau pellach a bywyd. Bydd eich pwyslais ar sut y gellir eu gwella ymhellach i gefnogi'r cwricwlwm newydd yn helpu i sicrhau bod ein pobl ifanc yn parhau i elwa ar y cyfleoedd hyn.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cyngor manwl. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion drefnu cyfarfodydd adolygu allweddol ar ddiwedd yr haf a diwedd y flwyddyn ar ôl i chi gwblhau'ch gwaith ymgynghori. Byddwn yn disgwyl i chi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan fynd y tu hwnt i'r sector ysgolion i gynnwys (er enghraifft) gweithwyr y sector cyhoeddus

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

a phreifat, colegau a phrifysgolion. Mae'n gyfle amserol i ystyried eich cyngor er mwyn llywio polisïau ac adolygu'r gofynion cyllido ar gyfer 2020-21 a thu hwnt.

Yn gywir



Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg